TAG UWCH

1000N60-1

S24-1000N60-1

**DYDD MAWRTH, 11 MEHEFIN 2024 – BORE**

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF – U2 uned 6

## Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun (Papur Ysgrifenedig)

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir i chi.
Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.
Dylech ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.
Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.
Dylech dreulio **1 AWR** ar Adran A ac **1 AWR** ar Adran B.
Cofiwch dreulio amser digonol yn cynllunio eich atebion.
**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.
Cofiwch mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A – GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH

**1.** Darllenwch yn ofalus y gerdd 'Oriawr Taid' gan Elan Grug Muse. Cerdd yw hi sy'n dwyn atgofion i'r bardd.

Ysgrifennwch **draethawd** yn dadansoddi **cynnwys** ac **arddull** y darn. Wrth ddadansoddi dylech gofio:

- defnyddio **termau beirniadaeth lenyddol** a **dyfyniadau**
- cyfeirio at **weithiau llenyddol eraill** yr ydych yn gyfarwydd â nhw sydd yn ymdrin â **thema** neu **themâu** tebyg gan drafod a yw'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol.

Gallwch gyfeirio at weithiau Cymraeg perthnasol a ddarllenwyd neu a welwyd yn ogystal â thestunau a astudiwyd gennych. [40]

Oriawr Taid (Rhan 1)

Mae hi'n drwm,
yn bwysau yn fy llaw
a llawer iawn rhy fawr i'w gwisgo
am fy ngarddwrn tenau i.

Oriawr Taid.
Rhodd o aeaf saith-deg-naw
pan fu rhyw anffawd
ar fferm yn y gymdogaeth
a Taid wedi mynd i'r adwy.

Wn i ddim o'r hanes,
y pwy na'r pam.
Ond trwy sepia fy mhen
mi'i gwela i o'n mynd, cap stabl am ei glustiau,
ei wefusau heb wastraffu gwên,
ei fochau'n goch ym mrath rhyw awel fain;
a'i lygaid glas yn craffu; asesu'n dawel
cyn troi ar ei sawdl a gwneud, heb ffws
yr hyn sydd angen ei wneud,
ei lais bas llefrith-cynnes-syth-o-deth
yn galw'n awdurdodol ar ei ast.

Oriawr Taid (Rhan 2)

Mae’r gwydr fel rhyw grachen wedi ceulo*
a thic-toc, tic-toc y gwaed
yn y gwythiennau wedi peidio.
Ond o’i chodi at fy nghlust fel cragen fôr
a gwrando, er nad yw’r cogiau gloyw’n dal i gnoi
yr oriau yn dameidiau erbyn hyn
mi glywaf yn ei siambrau gwag
sisial pell rhyw synau hen o hyd.

Ac o’i chodi at fy nghlust fel cragen fôr
clywaf leisiau’n codi’n llanw Medi o’i chrombil,
siarad mân tros lestri Tsieina,
treiffl, jeli coch a chlecs.
Emynau trwm mewn pedwar llais
a chleciau gynnau.
Brefu ŵyn, bytheirio
a grwndi injan Fford.

Ond be wnaiff neb ag oriawr ddaeth i stop?
Yn sownd yn nhriog amser
yn cario’r dyddiau pell
fel pryfed mewn darnau ambr?

Ei rhoi yn saff yn nrôr y pethau coll
rhwng hen fatsys, allweddi
a hoelion sbâr
i’w chadw, nes daw’r ysfa,
ryw brynhawn, i’w hestyn eto
a’i chodi at fy nghlust fel cragen fôr...

* caledu

## ADRAN B – Y GYMRAEG MEWN CYD-DESTUN

**2.** Lluniwch **brif eitem newyddion (teledu)** am effaith twristiaeth ar rannau o Gymru.

Bydd angen i chwi ddewis a dethol ffeithiau addas ar gyfer y brif eitem newyddion, rhoi trefn arnynt ac ysgrifennu'n gryno ac yn bwrpasol. Mae cyfle i chi dynnu ar eich profiadau/gwybodaeth bersonol pan fo'n briodol. [40]

**Twristiaid a Thwristiaeth**
- Pobl sy'n teithio o'u cartrefi ar gyfer pleser
- Pobl â mwy o incwm i'w wario erbyn hyn
- Teithio wedi dod yn haws
- Y boblogaeth yn heneiddio a phobl sydd wedi ymddeol â mwy o amser ar eu dwylo
- Yn aml yn fwy cyfoethog na thrigolion yr ardal y maent yn ymweld â hi
- Un o'r diwydiannau sy'n tyfu gyflymaf yn y byd
- Creu llawer o swyddi
- Rhai ardaloedd a gwledydd yn ddibynnol ar dwristiaid sy'n prynu nwyddau a gwasanaethau

**Cymru**
- Atyniadau Cymru – ei pharciau cenedlaethol – yn cynnwys arfordiroedd, mynyddoedd a choedwigoedd
- Twristiaeth yng Nghymru yn cyfrannu £3.4 biliwn i'r economi yn y flwyddyn cyn Covid
- Cyfleusterau ar gael i bobl leol yn ogystal â thwristiaid e.e. pwll nofio Bluestone
- Tua 110 000 o swyddi'n cael eu cynnal gan y diwydiant twristiaeth yn y wlad hon



Cyngor Conwy yn cynyddu bil treth ail gartrefi – 100% yn uwch na gweddill y trethdalwyr.

**Effeithiau'r Diwydiant**
- Creu 11.3% o swyddi
- Swyddi tymhorol â chyflogau isel
- Dod ag arian i'r wlad
- Newid diwylliant ardal
- Defnyddio arian o dwristiaeth i amddiffyn tirwedd ac adeiladau
- Prisiau cynnyrch a thai yn codi
- Cyfleusterau i dwristiaid o fudd i bobl leol hefyd
- Difrod i'r amgylchedd leol
- Gorboblogi a thagfeydd traffig
- Ffermwyr yn poeni am ddifrod i'w tir

**Virginia Crosbie, Aelod Seneddol Ceidwadol Ynys Môn**
- Peth da bod gwestai, y meysydd carafanau, a'r busnesau lleol yn croesawu nifer o ymwelwyr
- Y diwydiant ddim yn creu'r swyddi da y mae Môn eu hangen
- Eisiau sicrhau bod swyddi parhaol da ar gael i bobl ifanc uchelgeisiol yn Ynys Môn



Cynnydd o 70% yn nifer yr ail gartrefi yng Nghonwy rhwng 2013 a 2018.




Cyngor Rhosneigr ar Ynys Môn yn amcangyfrif bod 45% o gartrefi yn ail gartrefi a theuluoedd lleol yn honni nad ydyn nhw'n gallu fforddio byw yno mwyach.

**Lois Llywelyn Williams, myfyrwraig ym Mhrifysgol Rhydychen**
- Tensiynau yn sicr wedi codi ymysg pobl yr ardal
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy trefol yn brysio i brynu ail gartrefi heb feddwl ddwywaith
- Pobl leol, yn enwedig yr ifanc ddim yn medru cystadlu
- Amhosib gwneud llawer i reoli'r sefyllfa

**Dylai dim mwy na 5% fod yn dai haf**
"Mae tai haf yn dinistrio cefn gwlad ac mae angen gweithredu", meddai Gwyn Wigley Evans, Arweinydd Plaid Gwlad.

**Liz Saville Roberts, Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd**
"Mae cyflogaeth o bob math yn beth da ond mae twristiaeth yn golygu swyddi dros dro sy'n cynnig cyflogau isel. Mae'n rhaid i ni yn yr hir dymor feddwl am sut i greu swyddi sy'n galluogi pobl i brynu tai. Mae 'na rywbeth yn anghywir lle mae gennych chi 5,000 o ail gartrefi yng Ngwynedd ond bod gennym ni hefyd 2,000 yn methu â chael tŷ cymdeithasol."

John Rice, un o drigolion Morfa Nefyn yn pryderu am yr iaith.

**Argyfwng ail gartrefi yn berthnasol i Gymru gyfan, medd Delyth Jewell, Aelod Senedd Plaid Cymru**
"Mae ail gartrefi yn ergyd sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru, ac nid dim ond y rheini yn y Gorllewin."

**DIWEDD Y PAPUR**